

Tasg 1

Y Tymhorau

1. Darllenwch y gerdd eto.

Mae pob pennill yn disgrifio tymor.
Ysgrifennwch enw'r tymor yn y bocs.

(Pa dymor?)

Blasais i grempog,
cawl poeth a chacennau cri
ac wyau siocled.

(Pa dymor?)

Aroglais i'r môr,
byrgers ar y barbeciw
a blodau hyfryd.

(Pa dymor?)

Clywais i chwerthin,
BANG! ... CRAC! ... CRIC! – tân gwyllt lliwgar
a fflamau coelcerth.


(Pa dymor?)

Teimlais i'r eira,
y rhew caled dan fy nhraed
a chot gynnes braf.

Non ap Emlyn

2. Pa synnwyr sy ar goll?

Geirfa			
disgrifio	to describe	llinell	line
tymor, tymhorau	season, seasons	synnwyr	sense
cerdd	poem	ar goll	missing
pennill	verse		



3. Beth ydych chi'n gallu gweld yn y gwanwyn, yr haf, yr hydref a'r gaeaf?
Gwnewch restr:

	Dw i'n gallu gweld ...		Dw i'n gallu gweld ...
Yn y gwanwyn ...		Yn yr hydref ...	
Yn yr haf ...		Yn y gaeaf...	

Gêm i grŵp o 4

Partner 1: Y gwanwyn – darllenwch eich rhestr i'r grŵp.

Partner 2, 3, 4: Gwrandewch yn ofalus. Os ydy'r gair yn eich rhestr chi, croeswch y gair allan. Yna, rydych chi'n cael 5 marc am bob gair heb ei groesi allan. Chwaraewch eto ond y tro yma: Partner 2 – yr haf; Partner 3 – yr hydref; Partner 4 – y gaeaf.

Geirfa			
y gwanwyn	spring	os	if
yr haf	summer	croesi allan	to cross out
yr hydref	autumn	heb ei groesi allan	that hasn't been crossed out
y gaeaf	winter		
rhestr	list	y tro yma	this time